# CYNLLUN GRANT CYNGOR GWYNEDD PARTHED DEFNYDD O DOILEDAU A DDARPERIR GAN ERAILL

## Prif Delerau ac Amodau i'r Grant.

1. Rhaid i'r cyhoedd yn gyffredinol gael hawl i ddefnyddio'r toiledau yn ddi-rwystr yn ystod yr oriau agor y cytunwyd arnynt.

2. Caiff Cyngor Gwynedd hysbysebu'r toiledau ar ei wefan ac mewn cyhoeddiadau eraill eu bod yn rai sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddi-rwystr.

3. Caiff swyddogion Cyngor Gwynedd yr hawl i fonitro/archwilio'r toiled ar unrhyw adeg resymol.

4. Rhaid i'r Darparwr Gwasanaeth arddangos o leiaf un arwydd yn dangos ar ffenestr(i) neu ddrws(drysau) addas ei fod yn aelod o'r Cynllun ac i hysbysu'r cyhoedd o'u hawl i ddefnyddio ei doiledau. Cyngor Gwynedd fydd yn darparu'r arwydd(ion).

5. Rhaid i'r Darparwr Gwasanaeth fod â threfniant sefydlog i'r toiled fod yn lân, a hylan, pob dydd a bod yna roliau toiled, sebon, biniau a chyfleusterau sychu dwylo. Rhaid i'r Darparwr Gwasanaeth sicrhau nad yw cyflwr y toiled ar unrhyw adeg yn anaddas neu'n creu risg i'r defnyddwyr.

6. Bydd Cyngor Gwynedd yn gwerthuso ceisiadau am grant ac yn gosod lefel y taliad grant i'r Darparwr yn seiliedig ar sail amgylchiadau'r sefydliad a'i doiledau sef:

- yr oriau agor dyddiol (isafswm yn 20 awr yr wythnos)
- y dyddiau y mae'n agored
- y cyfnod o Wasanaeth (tymhorol ynteu deuddeg mis)
- yr ystod o gyfleusterau ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio
- cyflwr ac ansawdd y cyfleusterau
- polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol addas ar gyfer y Sefydliad
- (a darparu copi i Gyngor Gwynedd yn ôl y gofyn)

Bydd Cyngor Gwynedd yn penderfynu ar swm y grant gall Ddarparwr Gwasanaeth ei dderbyn pan mae'n gwerthuso'r Cais. Bydd Cyngor Gwynedd yn rhyddhau'r arian grant mewn un taliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. (Mawrth)

7. Gall y Darparwr Gwasanaeth derfynu'r Gytundeb drwy roddi un fis o rybudd ysgrifenedig i Gyngor Gwynedd.

8. Gall Cyngor Gwynedd derfynnu'r Gytundeb oherwydd amgylchiadau gyllidol neu rhesymau eithriadol neu am fod perfformiad y Darparwr Gwasanaeth yn annerbyniol.

9. Bydd cytundeb ar gyfer pob Sefydliad gyda Cyngor Gwynedd yn parhau hyd at ddeuddeg mis calendr o flwyddyn ariannol. Noder, nid yw Cyngor Gwynedd yn ymrwymedig i adnewyddu Cytundeb cyfredol neu rhoi Cytundeb newydd i Sefydliad yn y flwyddyn ariannol ganlynol.